

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

21 Medi 2018
Ystafell Addysg
11.30 – 1.00

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Llywydd)
Gwilym Dyfri Jones
Dyfrig Jones
Richard Houdmont

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Steve Williams
Iwan Davies

Liz Siberry
Susan Davies
Hugh Thomas

Tîm Gweithredol:

Linda Tomos
David Michael
Pedr ap Llwyd

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Staff:

Annwen Isaac
Carol Edwards

Rheolwr Adnoddau Dynol
Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Hefyd yn bresennol:

Paul Jackson	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Nia Wyn Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Mary Ellis	MALD
Catrin Hughes	MALD

1.1 Croeso'r Llywydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Catrin Hughes o MALD oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o Fwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell. Gwnaeth hefyd estyn llongyfarchiadau'r Ymddiriedolwyr i Doug Jones ar ei briodas yn ddiweddar.

Gan fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi yn yr adroddiad ar lywodraethu a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2016 y dylai'r Bwrdd geisio osgoi sesiynau caeedig gymaint â phosib, nododd y Llywydd ei fod yn sensitif i'r ffaith bod dwy sesiwn gaeedig wedi eu cynnal heddiw, a gwnaeth sicrhau pawb bod materion i'w trafod y tro yma ble roedd rhaid cynnal sesiynau caeedig.

1.2 Ymddiheuriadau

Roedd yr Arglwydd Aberdâr wedi nodi ei ymddiheuriadau na fedrai bod yn bresennol. Roedd Eleri Twynog Davies wedi gorfod gadael am 11.00 ac felly'n methu bod yn bresennol yn y sesiwn agored.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Liz Siberry ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Elusennol Gregynog.

Datganodd Susan Davies ei bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â Phrifysgol Aberystwyth a bod ei mab yn un o'r gwirfoddolwyr yn y Llyfrgell.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o Brifysgol Abertawe.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Linda Tomos ei bod wedi derbyn gwahoddiad i ymuno ag Ymddiriedolaeth yr Ysgwrn pan fydd wedi ei sefydlu, ac roedd am nodi hyn er gwybodaeth.

Datganodd Dyfrig Jones fudd yn eitem 2.1 ar yr agenda, gan ddweud y byddai'n gadael yr ystafell pan fyddai'r eitem yn cael ei drafod.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 13 Gorffennaf a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd y cofnodion fel trafodaeth gywir o'r hyn a drafodwyd. Cynigiwyd y cofnodion gan Hugh Thomas a'u heilio gan Richard Houdmont.

Nodwyd fod Gwilym Dyfri Jones yn bresennol yng nghyfarfod 13 Gorffennaf, ac ymddiheurodd y Clerc am beidio â nodi ei bresenoldeb yn y cofnodion.

1.5 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 13 Gorffennaf.

Yn dilyn derbyn llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae ymateb pellach wedi ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor gan y Llywydd i ddweud ei fod yn croesawu'r sylwadau positif a wneir ynglyn â rheolaeth y Llyfrgell o'i Chynllun Pensiwn. Nodwyd hefyd y byddai'r Llyfrgell yn rhannu Strategaeth Datblygu'r Gweithlu gyda'r Pwyllgor ar ôl iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd ar 23 Tachwedd.

Cyhoeddodd y Llywydd fod Hywel Tudor wedi ei gyfethol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol. Mae Hywel yn cyn Gyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau. Diolchodd y Llywydd i David Michael a Chlerc y Bwrdd am drefnu i Hywel ymweld â'r Llyfrgell i gwrdd â'r Tîm Gweithredol. Bydd Hywel yn mynychu ei gyfarfod cyntaf ar 5 Hydref.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth neu benderfyniad

2.1 Ysgoloriaethau PhD Prifysgol Bangor

Gadawodd Dyfrig Jones yr ystafell ar gyfer yr eitem yma.

Cyflwynodd Pedr ap Llwyd bapur i'r cyfarfod, gan nodi ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn hytrach na'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ôl yr arfer gyda cheisiadau o'r fath, oherwydd bod yr amserlen ar gyfer gweithredu hyn yn dynn iawn. Mae'r Llyfrgell yn gofyn i'r Ymddiriedolwyr ystyried y posibilrwydd o ganiatáu'r i'r Llyfrgell sefydlu perthynas ffurfiol â Phrifysgol Bangor a chefnogi myfyriwr i astudio ar gyfer gradd PhD wedi'i sylfaenu ar y casgliadau cenedlaethol a gedwir yn y

Llyfrgell. Byddai hyn yn esblygiad pellach o'r Archif Gerddorol. Prifysgol Bangor fyddai'n cyflwyno'r cais ond byddai'r myfyriwr wedi ei leoli yn y Llyfrgell.

Byddai'r PhD yn cael ei ariannu'n rhannol o'r cronfeydd preifat, ac o gymynrodd Geoff Powell yn benodol, sydd eisoes yn cefnogi'r Archif Gerddorol. Byddai cylch gwaith Rheolwr yr Archif yn cynnwys chwilio am ffynonellau cyllido eraill ar gyfer cyfleoedd ymchwil pellach, tra byddai'r Goruchwyliwr Academaidd yn nodi cyfleoedd cyllido pellach ar gyfer ymchwil tebyg tra'n cydlynu o bell gyda'r myfyriwr/wraig a darparu cyfarwyddyd goruchwyllo a throsolwg academaidd.

Nododd y Trysorydd y byddai'n well ganddo petai'r papur yma yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 5 Hydref a dod yn ôl i'r Bwrdd ar 23 Tachwedd gydag argymhelliad. Cytunodd y Llywydd i gais y Trysorydd.

Ail ymunodd Dyfrig Jones a'r cyfarfod yn y fan yma.

Gan fod tymor Phil Cooper fel Ymddiriedolwr wedi dirwyn i ben, mae'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn brin o aelodau, a chan na fydd Iwan yn medru bod yn bresennol ar 5 Hydref, ni fydd cworwm yn y cyfarfod. Pwysleisiodd y Llywydd yr angen felly i ethol aelodau heddiw i'r Pwyllgor, ac etholwyd Susan Davies a Gwilym Dyfri Jones yn aelodau - fe'u cynigiwyd gan Hugh Thomas ac eiliwyd gan Dyfrig Jones.

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 Cofrestr Risg

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 6 Gorffennaf, mae R3 wedi ei diweddarau i gynnwys cyfeiriad at yr angen i baratoi cynllun ariannol ar ôl 2023 ar sut bydd modd ariannu prosiect yr Archif Ddarlledu.

Mae dwy risg newydd wedi eu hychwanegu yn sgil Brexit;

R4 Brexit - caled neu dim cytundeb - yn bygwth cadwynau cyflenwi ar gyfer mewnfario bwyd, nwyddau a gwasanaethau

Mae hon yn risg uchel ac er bod y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer canlyniad Brexit gyda dim cytundeb, nid yw'r Llyfrgell wedi cael cyfle i ystyried hyn eto. Gall Brexit heb gytundeb effeithio ar ddarpariaethau cytundebau ar gyfer gwaith cyfalaf ac ar Bendinas.

R5 Effaith Brexit ar y Cynllun Pensiwn

Mae hon yn risg uchel arall. Gall fod effaith mawr o ganlyniad i newidiadau mewn cyfraddau llog, arian cyfred a buddsoddiadau, Mi fydd y Cynllun Pensiwn yn cael ei asesu ar 31 Mawrth 2019, ond yn y cyfamser gall y Llyfrgell ofyn am gyngor gan yr actwari ar weithrediadau i leihau'r effaith.

Gofynnwyd a byddai gan Brexit unrhyw oblygiadau ar gyfer arian neu gytundebau Ewropeaidd, a chytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd yn amlinellu unrhyw oblygiadau. Dylai hyn hefyd gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Gofynnwyd a oedd Cynllun Gweithredu ar gyfer R7 wedi ei baratoi (gweithgareddau codi arian). Cytunodd Linda Tomos i gyflwyno papur i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ar y pwnc yma.

3.2 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2017 – 2018

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Llyfrgell i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae pob safon yn egluro sut mae disgwyl i'r Llyfrgell ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'n ofynnol i'r Llyfrgell baratoi adroddiad blynyddol erbyn 30 Medi 2018 yn unol â'r hyn a nodir yn y Safonau. Dyma'r adroddiad cyntaf i'r Llyfrgell ei baratoi ers i'r Safonau gael eu cyflwyno, ac mae'n canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018.

Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Llyfrgell, ac wedi ei amlygu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nodwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r unig sefydliad arall sydd wedi derbyn safonau mor uchel â'r rhai sydd wedi eu gosod ar y Llyfrgell.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd Awst 2018

Nododd David Michael ei bod yn debygol y bydd gôr wariant o £50k - £100k eleni, ac mae hynny'n bennaf oherwydd anhawster i godi mwy o incwm. Mi fydd gwaith cyfalaf ar yr adeilad yn debygol o effeithio mwy fyth ar allu i godi mwy o incwm. Cafwyd problem gyda safon y gwaith clirio'r asbestos, ac mae'n debygol y bydd y Llyfrgell yn dwyn achos cyfreithiol yn erbyn y contractwyr. Linda Tomos, fel y Swyddog Cyfrifyddu fydd i benderfynu ar hyn ai peidio, ond mae'r Llyfrgell eisoes wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar y mater.

Yn Atodiad 3 - Incwm Masnachol, gofynnwyd am doriad o'r costau o dan Ystadau ac eraill. Nodwyd hefyd bod y golled o £19,090 yn cynnwys £8k o rent y porthdy. Cytunwyd fod angen edrych eto ar sefyllfa'r porthdy.

Mae pedwar cwmni wedi tendro am y gwaith cyfalaf ar y prif adeilad, ac mi fydd penderfyniad wythnos nesaf ar y cwmni llwyddiannus.

Diolchodd Linda Tomos a'r Llywydd i David am ysgwyddo'r baich ychwanegol yma

Mi fydd y Pennaeth Cyllid a Menter newydd yn dechrau yn ei swydd 1 Hydref.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 06.07.18

Nid oedd gan y Cadeirydd, Hugh Thomas, ddim i'w ychwanegu at gofnodion cyfarfod 06.07.18.

Diolchodd y Llywydd i'r Cadeirydd am alw cyfarfod brys o'r Pwyllgor ar 19 Medi, ac i'r aelodau am ymgynnull ar fyr rybudd.

Nododd y Cadeirydd mai dyma'r tro cyntaf iddo alw cyfarfod brys, a'r rheswm dros wneud hynny oedd nad oedd yn teimlo fod gan yr Ymddiriedolwyr ddigon o wybodaeth gefndirol ynglŷn â'r Archif Ddarlledu i fedru cymeryd penderfyniad ar 23 Tachwedd. Mae angen i'r Tîm Gweithredol baratoi'r

wybodaeth hynny i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol erbyn ei gyfarfod ar 5 Hydref fel bod argymhellion yn seiliedig ar wybodaeth gyflawn yn medru cael eu gwneud i'r Bwrdd ar 23 Tachwedd.

Nododd y Llywydd ei fod wedi gofyn i'r Tîm Gweithredol baratoi papur ar y sefyllfa ariannol hyd at 2024, a gofyn i'r Llyfrgellydd baratoi papur ar wahanol opsiynau ar gyfer torri costau.

5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 19.07.18

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms. Cafwyd cyflwyniad yn y cyfarfod gan gwmni Investec, sy'n rheoli portffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell. Roedd y cwmni am i'r Llyfrgell ystyried newid amrediad dosbarth asedau'r Llyfrgell - newid ecwiti'r DU a rhai tu allan i'r DU i 20% - 40% o 25% - 45% (rhaf i'r DU) a 15% - 35% (rhaf tu allan i'r DU). Roedd y Pwyllgor yn hapus i argymhell y newid yma i'r Bwrdd, a chytunodd y Bwrdd yn unfrydol i'w newid.

5.3 Diweddariad llafar o'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 07.09.18

Nododd Susan Davies nad oedd cworwm yn bresennol yn y cyfarfod, ond nad oedd hyn wedi effeithio ar fusnes, gan nad oedd unrhyw benderfyniadau nac argymhellion i'w gwneud.

Trafodwyd y canlynol - Adolygiad Perfformiad yr Ymddiriedolwyr, Cynllun Gweithredu cyflawni argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyflawni gyda'n Gilydd, ystyriaeth ar dalu'r Llywydd, Dogfen Fframwaith a dangosyddion cyflawni.

Aeth Susan ymlaen i ddweud ei bod wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog yn dweud y byddai ei chyfnod fel Ymddiriedolwr yn dod i ben ar 31 Rhagfyr eleni. Nododd Susan ei siom ynglŷn â hyn, ond nododd hefyd ei phryder ynglŷn â'r broses sydd wedi ei dilyn gan Lywodraeth Cymru. Ategodd Iwan Davies sylwadau a wnaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ar 7 Fedi ei bod yn siomedig nad yw Lywodraeth Cymru yn cael deialog gyda'r Llyfrgell ynglŷn â'r broses o ail apwyntio, ac nad yw rhoi gwybod i Ymddiriedolwr mewn llythyr heb unrhyw rybudd na thrafod ymlaen llaw yn dderbyniol.

Nododd Pedr ap Llwyd, ac ategwyd hyn gan y Clerc, bod deialog yn cymeryd lle rhwng y Llyfrgell a Lywodraeth Cymru ar apwyntiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, a diolchodd y Clerc i Mary Ellis, oedd yn bresennol, ac i Tracy Jermin o'r Uned Apwyntiadau Cyhoeddus am eu cymorth a'u cydweithrediad wrth drafod a gweithredu apwyntiadau ar y cyd.

Diolchodd y Llywydd i Susan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, ac i'r holl Ymddiriedolwyr am eu gwaith gwirfoddol er lles y Llyfrgell.

5.4 Diweddariad llafar o'r Grŵp Tasg a Gorffen Addysg ar ôl 16 oed

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd, Dyfrig Jones. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl terfynol i'r Grŵp. Mi fydd Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, ac mae Pedr yn arwain ar hyn ar ran y Llyfrgell. Mae Cytundeb o Ddealltwriaeth ar fin cael ei arwyddo gyda Phrifysgol Abertawe, a bydd rhaid bwrw ymlaen i drafod drafftio cytundebau gyda phrifysgolion eraill. Cafwyd trafodaeth gychwynnol hefyd ar ysgoloriaethau PhD Prifysgol Bangor, sydd wedi ei drafod ymhellach heddiw.

5.5 Diweddariad llafar o'r Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 20.09.18

Cafwyd diweddariad gan y Cadeirydd, Liz Siberry, a nododd fod teimlad positif o ddathlu'r adeilad yn cael ei gyfleu yn nrafft cyntaf y Cynllun Rheoli Cadwraeth sy'n cael ei baratoi gan Donald Insall Associates, ac mae hyn i'w groesawu. Nodwyd hefyd bod CADW yn hapus gyda'r cynlluniau i ddychwelyd Oriol Gregynog i'w ysblander gwreiddiol.

Adran 6 Materion y Llyfrgellydd

6.1 Digwyddiad yn Llundain 2019

Mae Clerc y Bwrdd a'r Arglwydd Aberdâr yn cydlynu trefnu digwyddiad yn Llundain i hyrwyddo'r Llyfrgell yn ystod 2019. Mi fydd y digwyddiad yn cymeryd lle yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 Fawrth rhwng 6.00 - 8.00 yr hwyr. Mae gweithgor mewnol wedi ei sefydlu i drafod trefniadau ymarferol, a buasai'n braf petai rhai o'r Ymddiriedolwyr yn barod i gynorthwyo hefyd gyda syniadau ac ati. Cytunodd Liz Siberry a Hugh Thomas i gynorthwyo. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolwyr basio unrhyw syniadau ynglŷn â'r digwyddiad ymlaen at Glerc y Bwrdd, fydd yn anfon gwybodaeth ynglŷn â'r dyddiad allan yn fuan.

Nododd Linda Tomos, fod Cheryl Dennis, Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Llundain yn awyddus i gynorthwyo gyda gwaith y Llyfrgell, ac mae trefniadau ar y gweill i arddangos rhai o weithiau Kyffin yn y swyddfa yn Llundain.

Mynychodd Linda ddigwyddiad yn Ysgol Highgate yn Llundain nos Wener diwethaf, ble bu Syr Kyffin Williams yn athro, ac roedd yn noson lwyddiannus dros ben. Roedd eitemau o waith Kyffin o gasgliad y Llyfrgell yn cael eu harddangos yno.

6.2 Apwyntiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

Amlinellodd y Llywydd yr amserlen ar gyfer y rownd nesaf o benodiadau sydd wedi ei chytuno gyda swyddogion MALD. Hysbysebu diwedd Medi, dyddiad cau ar 19 Hydref, rhestr fer yn gynnar ym mis Tachwedd, a chyfweliadau ar 5 Rhagfyr ar gyfer Is Lywydd, a 6/7 Rhagfyr ar gyfer Ymddiriedolwyr.

6.3 Oriol Gregynog

Braf gweld fod y Gweinidog, yn ei lythyr dyddiedig 15 Awst, yn cefnogi a chroesawu cynlluniau'r Llyfrgell ynglŷn ag Oriol Gregynog. Diolchodd Linda Tomos i Mary Ellis a Peter Owen am y cyfle i gael sgwrs ynglŷn â hyn a'r cyfle i'w dangos o gwmpas yr Oriol. Mae'n parhau'n ddyddiau cynnar o ran cyfeiriad strategol ar hyn ond mae trafodaethau wedi cychwyn.

6.4 Coleg Harlech

Diolchodd Linda Tomos i Rob Phillips a Martin Jones am gasglu'r archif o Goleg Harlech ar 20 Medi. Mae wedi ei throsglwyddo i'r Llyfrgell ar yr amod ein bod yn ei pherchen ac nid ar adnau. Mi fydd yr archif yma'n cyfoethogi'n archif wleidyddol ac yn gaffaeliad i'n casgliadau. Mae Linda wedi gofyn i Adult Learning Wales am arian i gatalogio'r casgliad; rydym eisoes wedi derbyn £4.5k ganddynt i drosglwyddo'r archif i'r Llyfrgell. Mi fydd arwerthiant yn cymeryd lle i werthu gweddill y stoc, a/neu ei ddosbarthu i ganolfannau eraill. Diolchodd Pedr ap Llwyd i Linda am ei dyfalbarhad i sicrhau bod yr archif yn cyrraedd y Llyfrgell, a fyddai, fel arall, o bosib wedi ei dinistrio.

Adran 7 Materion y Llywydd

7.1 9fed Fforwm Cenedlaethol Llyfrgell Shanghai

Mi fydd y Llywydd a Doug Jones, arbenigwr y Llyfrgell ar Gasgliad Hawkes, yn cynrychioli'r Llyfrgell yn y gynhadledd yma, a fydd yn digwydd rhwng 17 - 19 Hydref. Mae Dafydd Tudur wedi paratoi cyflwyniad ar y testun *Beyond these walls: A National Library for Wales*, a bydd y Llywydd yn traddodi'r cyflwyniad yn ystod y gynhadledd.

7.2 Proses recriwtio i swydd y Llyfrgellydd a Phrif Weithredwr

Trafodwyd yr amserlen ar gyfer penodi yn y sesiwn gaeedig. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu ym mis Hydref, a bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ym mis Rhagfyr, gan obeithio medru penodi cyn y Nadolig. Y gobaith yw y bydd cyfnod o gydweithio a throsglwyddo gwybodaeth yn medru digwydd cyn i Linda ymdeol ym mis Mawrth 2019.

7.3 Archif Ddarlledu Genedlaethol

Trafodwyd y camau nesaf ynglŷn â'r Archif yn y sesiwn gaeedig. Mi fydd gwybodaeth ariannol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 5 Hydref, ac yna trafodaeth bellach ar y risgiau yn digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 26 Hydref, ac yna trafodaeth derfynol a phenderfyniad os dylid bwrw ymlaen i gyflwyno'r cais ym mis Rhagfyr ai peidio yng nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Tachwedd.

7.4 Blaengynllunio ariannol

Gweler 7.3

Adran 8 Unrhyw fater arall

Roedd yn bleser gan Pedr ap Llwyd gyhoeddi fod Cronicl Elis Gruffudd wedi ei ychwanegu'n ffurfiol i Gofrestr Cof y Byd UNESCO mewn seremoni yn Llundain ar 19 Medi.

Nododd Susan Davies ei bod yn gweithio ar baratoi gwybodaeth am y llyfrau a llawysgrifau ddaeth o'r Amgueddfa Brydeinig i'r Llyfrgell yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mynegodd Richard Houdmont ei siom am Y Lle Hanes yn yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd eleni a'r diffyg amlygrwydd i frand y Llyfrgell. Nododd Linda Tomos nad oedd y Llyfrgell yn cael rhoi ei brand ar y stondin, a dywedodd fod y Tîm Gweithredol yn rhannu siom yr Ymddiriedolwyr gyda'r stondin eleni. Er bod y Llyfrgell wedi cydweithio a chydweithredu ers tair blynedd, rhaid ystyried syniadau eraill, a chael presenoldeb ar y cyd, o bosib gyda'r Cyfeillion, yn Llanrwst flwyddyn nesaf. Cynigiodd Hugh Thomas bod y Tîm Gweithredol yn estyn gwahoddiad i'r Prif Weithredwr, Betsan Moses, i'r Llyfrgell i gael trafod cydweithio gyda hi at y dyfodol.

**** DIWEDD ****

